

© Llun/Picture Nigel Forster

# Nodweddion Diddorol

- **A** Coetir Derw gydag amryw rywogaethau adar y coed - telor y coed, y siff saff, y gwybedog brith, a'r gnocell fraith fwyaf.
- **B** Mae llawer o'r mwyngloddiau metel segur yn cynnal bywyd gwyllt prin a diddorol. Mae mwynau plwm, sinc a chopr yn wenwynig i'r rhan fwyaf o blanhigion a ffyngau, ond mae rhai rhywogaethau wedi esblygu i ymdopi â'r amodau caled hyn.
- **C** Yn ôl y sôn, bonheddwr o'r enw Lewis Gilbertson fu'n berchen ar Blas Cefn Gwyn ers llawer dydd. Roedd Gilbertson yn offeiriad yn Lloegr, a phan oedd bant o'i gartref, roedd ei deulu'n gofalu am y Plas. Yn ystod yr haf, arferai'r teulu dreulio misoedd ym Mhlas Cefn Gwyn, ac yn ystod un o'r gwyliau hyn, bu i aelod o'r teulu weld yr offeiriad yn ei ystafell, gyda'r drws dan glo, yng nghanol y nos! Symudodd yn araf ac yn dawel o gwmpas yr ystafell, yn ôl ac ymlaen, ac wedyn diflannodd. Ymddengys yr oedd gan Lewis Gilbertson sut feddwl am ei gartref yng Nghymru y byddai ei ysbryd yn ymweld â'r tŷ tra'r oedd yntau'n cysgu yn Lloegr!
- **D** Carreg Cadifor - carreg fawr wrth ochr bwthyn o'r un enw. Yn ôl y chwedl, roedd bwystfil gwyllt rheibus yn crwydro'r ardal, gan ddinistrio popeth o'i flaen. Un diwrnod, penderfynodd y pentrefwyr ei ddal a'i ladd. Cludwyd y corff i lawr y bryn, ac fe'i llosgwyd ar ben Carreg Cadifor.
- **E** Dywedir bod tylwyth teg yn byw ar ochr Mynydd Gorddu!
- **F** Fferm wynt - codwyd 19 o dyrbinau ym mis Mai 1998, gan ddarparu trydan at ddefnydd cartrefi, ysgolion a busnesau lleol. Mae'r tyrbinau'n dechrau cynhyrchu trydan yn awtomatig pan fydd cyflymder y gwynt yn codi i oddeutu 11 milltir yr awr, ac yn cynhyrchu ar eu mwyaf pan fydd y gwynt yn cyrraedd oddeutu 33 milltir yr awr. Maent yn eu diffodd eu hunain pan fydd y gwynt yn chwythu am fwy na 56 milltir yr awr.



© Llun/Picture Lucy Swannell



# Points of Interest

- **A** Oak woodland with a range of woodland birds species including wood warbler, chiff chaff, pied flycatcher, great spotted woodpecker.
- **B** Many of the abandoned metal mines support rare and interesting wildlife. Lead, zinc and copper minerals are toxic to most plants and fungi, but some species have evolved to cope with these harsh conditions.
- **C** Legend has it that many years ago there was a gentleman by the name of Lewis Gilbertson who owned Plas Cefn Gwyn. Gilbertson was a clergyman in England and when he was away from home his family looked after the Plas. The family spent months in Cefn Gwyn during the summer, and during one of these holidays, a member of the family saw the clergyman in his room, with a locked door, and in the middle of the night! He moved slowly and quietly through the room, backwards and forwards and then disappeared. It seems that Lewis Gilbertson thought so much of his home in Wales, his spirit would often visit the house whilst he was sleeping in England!
- **D** Carreg Cadifor - a large boulder next to the cottage of the same name. According to legend, a wild predatory beast roamed the area destroying everything in its path. One day the cottagers decided to catch and kill it. They carried the body down the hillside and burnt it on top of Carreg Cadifor.
- **E** Fairies are said to reside around the edges of Mynydd Gorddu!
- **F** Windfarm – 19 turbines erected in May 1998 generating electricity for use in local homes, schools and businesses. The turbines start to generate electricity automatically when the wind speed reaches around 11 mph, and achieve maximum output at around 33 mph. They shut down when the wind speed exceeds 56 mph.

© Clawr/Cover Jeremy Moore





# Taith Gerdded Mynydd Gorddu

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Mynydd Gorddu Walk



| | |
|---|---|
| **Dechrau:** | Lôn pentref Tal-y-bont |
| **Cyfeirnod Grid:** | SN654 891 |
| **Pellter:** | Llwybr A: 10.5 km – 6.5 milltir<br>Llwybr B: 9.8 km – 6.1 milltir |
| **Gradd:** | Canolig |
| **Tirwedd:** | Ffordd darmac, llwybrau cadarn, caeau a choetir. Gallai fod yn fwdlyd mewn mannau |
| **Mapiau:** | Arolwg Ordnans Explorer – 213 |
| **Lluniaeth:** | Tafarn y Llew Du, Tafarn y Llew Gwyn a siop y pentref |

1 Gan wynebu'r brifffordd o'r lôn pentref, trowch i'r chwith i gerdded ar y ffordd dros y bont, ac wedyn i'r chwith i ddilyn ffordd darmac cul gydag arwydd 'Dim Ffordd Trwodd'. Ewch ar hyd y trac trwy giât a thros grid gwartheg cyn gyrraedd fferm Penybontpren Uchaf ar ôl 2.1km. Ewch heibio'r tai allan i ddilyn y trac ar y chwith ar hyd ochr y coetir.

2 Croeswch y nant fach, ac wedyn trowch i'r dde trwy giât. Daliwch i ddilyn y trac A trwy giât arall a thrwy giât bren ar y chwith er mwyn dilyn llwybr y coetir trwy giât i lawr i bompren ger hen adfeilion B.

3 Ewch dros y bont ac wedyn i'r chwith i fyny'r bryn. Ar y brig, trowch i'r dde yn sydyn i fyny'r llwybr a thrwy fwlch ar ochr dde'r giât. Ewch ymlaen gyda'r ffens i'r chwith i fynd trwy giât bren ar y chwith C. Ymlaen trwy giât arall, gan ddilyn y trac i'r dde trwy giât arall hyd at grid gwartheg. Trowch i'r dde ar y ffordd er mwyn cyrraedd arwyddbost bys ar y dde ychydig cyn i'r ffordd droi i'r chwith. Dilynwch y trac i lawr trwy dair giât i groesi pompren. Ewch trwy'r giât wrth ochr y rhyd, ac wedyn troi i'r chwith yn syth i fynd i fyny'r bryn, gan anwybyddu'r llwybr o'ch blaen. Ewch yn syth ymlaen heibio'r arwyddbost gan gadw'r ffens ar y chwith. Pan fydd y llwybr yn dechrau troi i'r dde, dilynwch e i fyny'r bryn i gyrraedd trac a phostyn.

4 **O fan hyn, mae gennych ddau ddewis:**

**Llwybr A - *Dychwelyd trwy Benpompren Uchaf***

O'r arwyddbost, trowch i'r dde i ddilyn trac trwy sawl giât cyn mynd heibio tai allan ar y dde ac adfeilion ar y chwith. Dilynwch y trac i fyny trwy ddwy giât arall, ac wedyn troi'n syth i'r dde trwy giât i gerdded dros y cae i fynd trwy giât yn y cornel chwith ar y top. Daliwch i gerdded i fyny'r bryn gan gerdded tuag at y tyrbin, wedyn heibio pwll ar y chwith sydd wedi'i guddio i raddau gan frwyn, ac ymlaen dros gamfa. Ewch ymlaen gyda'r ffens ar y chwith i groesi ail gamfa.

5 Trowch i'r chwith i ddringo camfa wrth ochr giât. Ewch yn syth ymlaen heibio'r arwyddbost cyn gwyro ychydig i'r dde i fynd i lawr a thrwy giât i'r dde heibio hen adeilad fferm. Dilynwch y trac cyn gwyro i'r dde wrth y ffens ar y ffin i ddringo camfa, ac wedyn gwyro i'r chwith i ailymuno â'r trac i'w ddilyn i lawr trwy giât. Trowch i'r dde wrth y gyffordd ac ymlaen i lawr i'r fferm 2 cyn troi i'r chwith i ddilyn y ffordd yn ôl i Dal-y-bont.

**Llwybr B - *Dychwelyd trwy'r fferm wynt***


Dilynwch y trac i'r chwith trwy giât. Lle mae'r trac yn dechrau troi D, cerddwch yn groeslinol ar draws y cae i fynd trwy giât ger y gornel dde ar ben y cae. Ewch trwy'r giât, gan barhau i fynd i fyny'r bryn E nes cyrraedd giât arall sy'n arwain at drac fferm. Trowch i'r chwith, gan gerdded i fyny'r bryn trwy ddwy giât i iard fferm. Ychydig cyn cyrraedd y tŷ, trowch i'r dde ar lwybr carreg glai a thrwy giât bren i gerdded i fyny'r bryn, i fynd trwy giât. Daliwch i fynd i'r un cyfeiriad i fyny'r bryn trwy ail giât, wedyn giât arall ac ymlaen trwy'r tyrbinau i gyrraedd dwy giât fawr yn y gornel chwith ym mhen y cae F.

6 Croeswch y trac ac ewch trwy borth at ardal platfform. Ewch yn syth ymlaen ar hyd y trac, ond gan ei adael yn fuan lle mae'n troi i'r chwith, gan fynd i'r dde trwy giât ac wedyn ymlaen trwy giât arall. Cerddwch yn syth ymlaen uwch ben ardal gorsiog trwy giât. Croeswch y trac carreg glai ac ewch trwy giât yn ochr chwith bellaf y cae. Ewch ar hyd y trac am ychydig cyn cyrraedd tyrbin ar y dde, wedyn trowch hanner chwith i gerdded i fyny'r bryn. Daliwch i gerdded ymlaen tan gyrraedd ael y bryn cyn mynd i lawr y bryn i ddringo camfa ger y tyrbin pellaf yn y cae. Ewch trwy giât ac ymlaen i gyrraedd cornel y ffens. Daliwch i gerdded i lawr y bryn gyda'r ffens i'r chwith trwy giât i gyrraedd gwaelod y cae, ac wedyn trowch i'r dde i ddilyn y ffens i gyrraedd giât i mewn i fferm Bwlch y Ddwyallt.

7 Trowch i'r dde gan ddilyn y trac i'r dde trwy giât i fynd heibio sied fawr ar y chwith. Ychydig ar ôl y sied, trowch yn syth i'r chwith i gerdded o gwmpas cefn yr adeilad, gan fynd heibio sied fawr arall ar y dde. Daliwch i gerdded i lawr a thrwy giât gan adael yr iard. Ewch yn syth ymlaen ar y llwybr gwelltog, gan droi i'r dde wrth y gyffordd a chan fynd ymlaen trwy giât ar hyd y trac. Croeswch y trac i ddilyn y llwybr i lawr. Ar y gwaelod, trowch i'r dde trwy giât fetel ac wedyn yn syth dros gamfa ar y chwith. Ewch i lawr y bryn, gan wyro i'r dde i groesi camfa yng nghornel gwaelod y cae. Cerddwch i lawr trac suddedig heibio tai i'r ffordd, a throwch i'r dde at y bont a Thal-y-bont.



© Llun/Picture Nigel Forster





© Lluniau/Pictures Jeremy Moore

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014

# Taith Mynydd Gorddu Walk

| | |
|---|---|
| **Start:** | Tal-y-bont village green |
| **Grid Reference:** | SN654 891 |
| **Distance:** | Walk A: 10.5 km – 6.5 miles<br>Walk B: 9.8 km – 6.1 miles |
| **Grade:** | Moderate |
| **Terrain:** | Tarmac road, firm tracks, fields and woodland. Can be muddy in places |
| **Maps:** | OS Explorer - 213 |
| **Refreshments:** | Black Lion and White Lion pub and village shop |

1 Facing the main road from the green, turn *L* to walk over the road bridge and then *L* to follow a narrow tarmac road signposted 'no through road'. Continue along track for 2.1 km to go through a *G* and across a *CG* before reaching Penybontpren Uchaf farm. Walk past outbuildings to follow track *L* then along woodland edge.

2 Cross small stream then *R* through *G*. Continue on track A through another *G* and through a wooden *G* on the *L* to follow woodland path through *Gs* down to a *FB* next to an old ruin B.

3 Over the bridge, then *L* uphill. At top turn sharp *R* up track and through an opening on the *RH* side of the *G*. Continue with the fence on your *L* to go through a wooden *G* on *L* C. On through a *G* and follow track *R* through another *G* up to a *CG*. Turn *R* along road to reach a finger post on *R* just before road bends *L*. Follow track down through three *Gs* to cross a *FB*. Go through the *G* next to the ford, then turn immediately *L* uphill, ignoring the track ahead. On past marker post keeping fence on *L*. When the path starts to bend to the *R*, follow it uphill to reach a track and post.

4 **Here you have 2 options:**

**Walk A –**
***Return via Penpompren Uchaf***

From the marker post turn *R* to follow a track through several *Gs* before passing outbuildings on your *R* and a ruin on the *L*. Follow the track upwards through another two *Gs*, then turn immediately *R* through a *G* to walk across the field to go through a *G* in the top *L* corner. Continue uphill to head towards the turbine, then on past a pond on the *L* which is slightly hidden by rushes and on over a *S*. Walk ahead with the fence on your *L* to cross a second *S*.

5 Turn *L* to cross the field to climb a *S* next to a *G*. Head on past a marker post before veering slightly *R* to drop down and through a *G* to the *R* of an old farm building. Follow the track before veering *R* at the boundary fence to climb a *S*, then veer *L* to rejoin the track to follow it down through *Gs*. Turn *R* at junction and on down to the farm 2 before turning *L* to retrace route back to Tal-y-bont.

**Walk B – *Return through windfarm***

Follow the track *L* through a *G*. Where the track starts to bend D walk diagonally across the field to go through a *G* near the top *RH* hand corner of the field. Go through the *G* and continue uphill E to reach another *G* leading on to a farm track. Turn *L* and walk uphill to go through 2 *Gs* into a farm yard. Just before the house turn *R* up a shale path and through a wooden *G* and walk uphill, to go through a *G*. Continue in the same direction uphill through a second *G*, then another and on up through turbines to reach two large *Gs* at the top *LH* corner of field F.

6 Cross the track and through a gateway next to a platform area. Along track, but quickly leave it where it bends *L* to go *R* through a *G* then continue ahead through another *G*. Walk ahead above a marshy area through a *G*. Cross the shale track and go through a *G* in the far *L* side of the field. Along the track for a short distance until you reach a turbine on your *R*, then turn half *L* to walk uphill. Continue to the brow of the hill before going downhill to climb a *S* close to the far turbine in the field. Head down through a *G* and on to reach a fence corner. Continue to walk downhill with the fence on your *L* through a *G* to reach the bottom of the field, then *R* to follow the fence to reach a *G* entering Bwlch y Ddwyallt farm.

7 Turn *R* here and follow the track to the *R* through a *G* to pass a large shed on your *L*. Just after the shed turn immediately *L* to walk around the back of the building, passing another large shed on your *R*. Continue walking down and through a *G* exiting the farmyard. On along the grassy track at junction turn *R* through a *G*, and continue through *Gs* along track. Cross track to follow the path down. At the bottom, turn *R* through a metal *G* and then directly over a *S* on the *L*. Head downhill veering *R* to cross a *S* in the bottom corner of the field. Walk down a sunken track past houses to the road and turn *R* to the bridge and Tal-y-bont.



© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014